# YR AIL RYFEL BYD
# 1939–1945

THE ROYAL BRITISH LEGION


Photograph courtesy of USHM

1

Photograph courtesy of the Imperial War Museum, London (D 005926)

2

Photograph courtesy of the Imperial War Museum, London (CH 012148)

3

Photograph courtesy of the Imperial War Museum, London (C 000381)

4

Photograph courtesy of the Imperial War Museum, London (LN 006194)

5

## Cychwynnodd yr Ail Ryfel Byd (1939–1945)

Cychwynnodd yr Ail Ryfel Byd pan ymosododd yr Almaen ar Wlad Pwyl ym mis Medi 1939 dan arweiniad Adolf Hitler.

Lledaenodd y rhyfel drwy Ewrop ac yna drwy'r byd i gyd, gydag ymladd yn digwydd mewn llawer o wledydd ac ar y moroedd. Roedd gwledydd yn barod iawn i gefnogi naill ai'r Cynghreiriaid (yn cynnwys Prydain) neu wledydd yr Axis. Effeithiodd y rhyfel yn uniongyrchol ar boblogaethau sifil hefyd oherwydd ymosodwyd ar lawer o wledydd, cawsant eu goresgyn, ac roeddynt yn dioddef bygythiadau milwrol, rheolaeth ac erledigaeth.

## Y Ffrynt Cartref

Gan fod yr Almaen wedi wynebu gwrthwynebiad cryf yn yr awyr yn ystod Brwydr Prydain, ni cheisiodd oresgyn Prydain fel yr oedd wedi goresgyn gwledydd tir mawr Ewrop. Roedd amodau byw yn parhau i fod yn anodd iawn ym Mhrydain: cyflwynwyd dogni a dechreuodd y wlad gonsgriptio milwyr fel bod y mwyafrif o ddynion rhwng 20 a 40 oed yn gorfod cofrestru i wasanaethu'n filwrol. Hefyd roedd disgwyl i ferched heb blant naill ai ymuno ag unedau milwrol cynorthwyol, neu wneud gwaith rhyfel yng nghefn gwlad fel Merched Byddin y Tir, yn y ffatrïoedd neu disgwylid iddynt gymryd dyletswyddau eraill y byddai dynion fel arfer yn eu gwneud. Roedd unrhyw un oedd mewn swydd sifil a ddiogelwyd, megis athro neu ddynion hŷn na'r oedran gwasanaethu, hefyd yn cyfrannu drwy wasanaethu yn y Gwarchodlu Cartref, y gwasanaethau tân, fel glowyr neu yn y gwasanaethau meddygol brys. O haf 1940 ymlaen, cafodd Prydain ei bomio'n rheolaidd gan yr Almaen, a olygai fod miloedd o bobl yn cael eu lladd a chartrefi'n cael eu dinistrio.

## Cynghreiriaid a gwirfoddolwyr

Roedd lluoedd Prydain yn brwydro drwy'r byd i gyd, ac yn cyd-ymladd â hwy roedd bron i dair miliwn o ddynion a merched oedd wedi gwirfoddoli i ymladd o wledydd y Gymanwlad a'r Ymherodraeth. Bu lluoedd y Gymanwlad a'r Ymherodraeth yn ymladd ym mhob un o'r prif frwydrau, ac weithiau'n gorfod gorchfygu hiliaeth a rhagfarn eu cyd-filwyr yn ogystal ag ymladd yn erbyn y gelyn. Heb eu cefnogaeth hwy, a heb gefnogaeth y sifiliaid mewn gwledydd fel Prydain, oedd yn gwneud gwaith rhyfel neu'n cynnal cyflenwadau llongau'r llynges fasnach, ni fyddai Prydain wedi gallu dal ati i frwydro ar ei phen ei hun am flwyddyn fel y gwnaeth. Ni fyddai Prydain chwaith wedi bod yn ddigon cryf yn economaidd ac ni fyddai ganddi'r cyflenwadau na'r llafurlu i ddal ymlaen i wrthwynebu'r Almaen a gwledydd yr Axis.

## Etifeddiaeth yr Ail Ryfel Byd

Roedd yr Ail Ryfel Byd yn rhyfel hynod ddinistriol. Effeithiodd yn ddifrifol ar boblogaethau sifil, newidiodd lywodraethau, a newidiodd ffiniau gwledydd a meithrin yr angen am arfau newydd. Yn ôl yr amcangyfrif, y nifer a fu farw drwy'r byd i gyd, gan gynnwys yr Holocost a'r colledion sifil a milwrol, oedd 50 miliwn.

1 Cyfleusterau storio yn Auschwitz Iosgwyd ar ôl ei ryddhad

2 Gweithiwr Sîc mewn ffatri arfau Brydeinig Yn y 1940au

3 Daeth dynion ledled yr Ymerodraeth Brydeinig i ymladd ochr yn ochr â Lluoedd Prydeinig yn ystod yr Ail Ryfel Byd

4 Hyfforddwyd merched fel peilotiaid gan lenwi rolau hanfodol i gefnogi'r ymdrech rhyfel

5 Faciwîs ifanc, pryderus yn paratoi ar gyfer eu siwrnai i gefn gwlad